Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

National Assembly for Wales
Public Accounts Committee

Tracey Burke
Cyfarwyddwr Cyffredinol
Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru

24 Gorffennaf 2018

Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif:

Annwyl Tracey,

Diolch am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 25 Mehefin 2018 i drafod y Rhaglen Ysgolion ac Addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif ac am y wybodaeth ychwanegol rydych wedi'i rhoi i ni yn eich llythyr dyddiedig 10 Gorffennaf 2018.

Croesawodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol fod Llywodraeth Cymru wedi rheoli'r rhaglen fawr hon yn dda hyd yma a'i bod yn ymddangos ei bod ar y trywydd cywir i wneud y gwelliannau disgwyliedig i adeiladau ysgolion drwy'r don gyntaf o fuddsoddiad.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi ei bod yn amlwg bod mwy i'w wneud i ymateb i gyflwr cyffredinol ac addasrwydd llawer o ysgolion yng Nghymru, a hynny ar adeg pan fo arian cyhoeddus dan bwysau parhaus.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o'r newidiadau sylweddol posibl i'r rhaglen sydd ar y gorwel a phwysigrwydd camau gan Lywodraeth Cymru i egluro'r sefyllfa ariannu cyn gynted ag y bo modd er mwyn rhoi amser i gynghorau a cholegau addysg bellach baratoi eu cynlluniau yn barod ar gyfer cymal nesaf y rhaglen, sy'n dechrau yn 2019.

O ystyried pwysigrwydd y materion hyn, cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad byr iddynt, ac yn hytrach na chyhoeddi adroddiad ar hyn o bryd, ysgrifennwn atoch i wneud y sylwadau a ganlyn er mwyn i chi eu hystyried.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddArchwilio
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPAC@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPAC
0300 200 6565

At ei gilydd, mae'r Pwyllgor wedi nodi tôn gadarnhaol adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar y cyfan. Fel y cydnabu CLlLC a Cholegau Cymru, mae Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21 Ganrif yn gam ymlaen o'r hyn a oedd yn bodoli o'r blaen. Mae arwyddion cadarnhaol hefyd yn y ffordd y mae'r rhaglen wedi'i chyflwyno hyd yn hyn yng nghyd-destun gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, er y daeth y rhaglen cyn y Ddeddf. Rydym hefyd wedi nodi bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn yn gyffredinol argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol sy'n cwmpasu ystod o feysydd i'w gwella ymhellach yr ydym yn eu cymeradwyo.

Serch hynny, mae rhai meysydd lle hoffem gael sicrwydd pellach yn seiliedig ar y dystiolaeth a gawsom. Mae prif bryderon y Pwyllgor yn ymwneud â'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol. Yn gyntaf, nid oedd y dystiolaeth yn gwbl gyson, gyda Llywodraeth Cymru yn dweud nad oedd y model hwn yn cael ei orfodi ar Addysg Bellach, ond rhoddodd Colegau Cymru argraff glir i ni mai'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol oedd yr unig opsiwn ar gyfer prosiectau mwy. Roedd Colegau Cymru a CLlLC yn glir nad oedd y Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ddelfrydol a byddai'n well ganddynt ddewisiadau eraill, er bod tystiolaeth ysgrifenedig ddiweddar gan CLlLC wedi cydnabod manteision posibl. Mae'r cyfraniad o 75 y cant gan Lywodraeth Cymru yn amlwg yn ddeniadol i gynghorau a sefydliadau addysg bellach unigol. Fodd bynnag, mae gan y Pwyllgor bryderon a yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn cynnig y gwerth am arian gorau yn gyffredinol. Yn benodol, mae yna dri maes eang yr hoffai'r Pwyllgor gael rhywfaint o sicrwydd pellach arnynt:

1. A oedd yr opsiynau amgen – cyfalaf a benthyca â chymorth – wedi'u trafod yn llawn cyn cychwyn ar fodel newydd a allai fod yn ddrytach ac yn golygu mwy o risg?

2. A yw Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd wedi nodi mai'r rhaglen adeiladau ysgolion yw'r rhaglen fwyaf priodol ar gyfer defnyddio'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol? Yn benodol, a oes asesiad clir wedi'i wneud na fyddai adeiladu ysgolion yn ddefnydd gwell o bwerau benthyca Llywodraeth Cymru, gan adael y Model Buddsoddi Cydfuddiannol ar gyfer cynlluniau adeiladu ffyrdd, fel ffordd liniaru'r M4.

3. A oes cyfle priodol i oedi ac adolygu? Dros amser, am resymau dealladwy, mae'r dyhead gwreiddiol i ddefnyddio fersiwn o'r model dyrannu nad yw'n

dosbarthu elw wedi newid yn sylweddol. Wrth i'r manylion gael eu cwblhau a chyn ymrwymo i fynd ymlaen, hoffem gael sicrwydd y bydd cyfle i edrych ar y darlun cyflawn a gofyn a yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn wir yn ddull sy'n cynnig gwerth da am arian ar gyfer adeiladu ysgolion a cholegau.

Dyma feysydd eraill lle hoffem gael sicrwydd pellach:

- Ethos cydweithredol – lle'r oedd anghysondeb rhwng tystiolaeth CLlLC a Llywodraeth Cymru. Byddem am weld bod y cydweithio a pherchnogaeth ar y cyd yn parhau ym Mand B.
- Y galw am leoedd – ni chawsom ein hargyhoeddi gan yr ymatebion ynghylch hyblygrwydd y rhaglen i addasu i newidiadau yn y gyfradd genedigaethau. Yn benodol, roeddem am wybod a oedd y rhaglen yn cynnwys atebion technegol o ran ffabrig ysgolion sy'n golygu y gallant gynnig rhagor o hyblygrwydd – er enghraifft, i agor a chau ystafelloedd dosbarth, neu ddefnyddio ystafelloedd at bwrpas arall – wrth i'r ddemograffeg newid.
- Perfformiad ynni – nid oeddem yn argyhoeddedig fod Llywodraeth Cymru yn deall y pryderon ynghylch arbedion effeithlonrwydd ynni. Yn eich tystiolaeth, rydych yn dweud eich bod yn nodi'r arbedion ymlaen llaw yn effeithiol ond nid yw'r manylebau hynny yn arwain at yr arbedion cost a ddisgwylir. Credwn fod yna fater ehangach ynghylch natur wirioneddol yr arbedion posibl drwy effeithlonrwydd ynni y mae angen ei ystyried mewn cynlluniau ymlaen llaw. Hoffem weld Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan flaenllaw wrth herio'r diwydiant os nad yw manylebau'r diwydiant mewn gwirionedd yn cynnig y manteision ariannol ac amgylcheddol yr hoffech eu gweld. Mae CLlLC wedi awgrymu y byddai contractau'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol yn ceisio trosglwyddo risgiau sy'n gysylltiedig ag effeithlonrwydd ynni adeiladau i'r sector preifat a byddem hefyd yn croesawu eglurhad o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i drosglwyddiad y risg weithio.
- Cefnogaeth dechnegol – cawsom dystiolaeth gan Gomisiwn Dylunio Cymru ei bod hi'n amlwg nad yw ei wasanaethau yn cael eu defnyddio fel y gallent i gynorthwyo'r gwaith o weithredu'r Rhaglen. Hoffem i Lywodraeth Cymru ailystyried sut y gall wneud y defnydd gorau o'r Comisiwn Dylunio i

gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno Band B yn llwyddiannus ochr yn ochr ag ystyried y cymorth technegol ehangach sydd ei angen. Er eich bod wedi esbonio bod y gefnogaeth a ddarparwyd hyd yma gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru ar gyfer tri phrosiect ar wahân, mae Aelodau'n dal i bryderu a fydd cefnogaeth dechnegol ddigonol ar gael i gefnogi gweithredu'r Rhaglen yn y don nesaf. Mater i Lywodraeth Cymru yw penderfynu pwy sy'n darparu'r gefnogaeth honno. Fodd bynnag, byddem yn croesawu'r wybodaeth ddiweddaraf am eich cynlluniau yng nghyd-destun argymhelliad 10 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, a hynny gan ystyried y gwersi a ddysgwyd o effaith y cymorth technegol a ddarparwyd yn ystod Band A ac unrhyw gyfyngiadau o ran capasiti/gallu yn y sefydliadau sy'n gyfrifol am weithredu'r prosiect.

- Rydym yn croesawu'r ymrwymiad i fuddion cymunedol. Mae'n amlwg bod cymhlethdodau yn gysylltiedig â sicrhau mynediad gwell gan gymunedau at gyfleusterau ysgolion. Rydym yn cydnabod mai cyfrifoldeb y corff llywodraethu yw hynny yn y pen draw. Fodd bynnag, mae gan Lywodraeth Cymru a chynghorau ddylanwad sylweddol drwy'r arian a ddarperir drwy'r rhaglen. Hoffem gael sicrwydd bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dylanwad hwnnw i'r eithaf i sicrhau, lle bynnag y bo'n bosibl ac yn ymarferol, fod ysgolion a ariennir drwy'r rhaglen yn sicrhau bod eu cyfleusterau yn agored i'r gymuned eu defnyddio.
- Teithio llesol – nid ydym yn argyhoeddedig fod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn cael digon o ystyriaeth. Ymddengys fod eich llythyr diweddar yn cydnabod yr angen am fwy o waith craffu a herio yn hyn o beth, a hoffem i chi egluro beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol. Os gall Llywodraeth Cymru nodi enghreifftiau penodol o gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer teithio llesol, hoffem glywed amdanynt. Yn yr un modd, hoffem glywed am enghreifftiau o fynd i'r afael â diffyg mynediad at deithio llesol mewn achosion busnes.

Byddai'r Pwyllgor yn croesawu ymateb cychwynnol i'r meysydd hyn. Wedyn, hoffem gael y wybodaeth ddiweddaraf ym mis Ionawr 2019, wrth i ddyddiad dechrau Band B nesáu. Hoffem i'r wybodaeth rydych yn ei rhoi ddechrau 2019

gynnwys cyfeiriad at y materion a godwyd yn y llythyr hwn ochr yn ochr â'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol.

Rydym hefyd yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa Band A ar y pwynt hwnnw a mwy o fanylion am y dadansoddiad o'r cynlluniau ar gyfer Band B.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych.

Yn gywir,

Nick Ramsay AC
Cadeirydd